


# Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,  
YTyllgoed,  
Caerdydd,  
CF5 3PZ

 029 20 405 499

 post@ysgolplasmawr.cymru

 @YsgolPlasmawr

Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,  
Fairwater,  
Cardiff,  
CF5 3PZ

 029 20 405 499

 post@ysgolplasmawr.cymru

 @YsgolPlasmawr

Headteacher: Mr John D Hayes

Tachwedd 1af, 2020

Annwyl riant / warcheidwad,

Gobeithio fod holl aelodau'r teulu wedi llwyddo i gadw'n iach ac wedi cael amser i ddadflino ychydig yn ystod yr wythnos ddiwethaf. Mae'r sefyllfa COVID-19 yn parhau yn bryder aruthrol gyda'r feirws yn ôl yr ystadegau diweddaraf yn parhau ar gynnydd yng Nghaerdydd ac yn genedlaethol. Fel y gwyddoch, rydym ar gychwyn yr ail wythnos o'r cyfnod 'clo byr' yng Nghymru gyda chyfyngiadau cymdeithasol yn eu lle i geisio lleihau lledaeniad y feirws o fewn ein cymdeithas. Cawn weld beth ddaw yn dilyn y cyfnod clo diweddaraf hyn fydd, mae'n siwr yn ddibynol ar lwyddiant cymharol y cyfyngiadau ar ledaeniad y feirws.

**Yr unig ddisgyblion fydd yn dychwelyd i'r ysgol yn ystod wythnos 2-6 Tachwedd yw disgyblion Blynnyddoedd 7 ac 8, a disgyblion Blwyddyn 11 fydd yn dod i'r ysgol i sefyll arholiadau TGAU yn unig.** Dilynwch y cyswllt isod i gyrraedd cyflwyniad pwysig ar moodle am drefniadau'r arholiadau TGAU.

<https://moodle.ysgolplasmawr.cymru/course/view.php?id=454>

Bydd angen i ddisgyblion Blwyddyn 11 drefnu lifft adref ar ôl yr arholiad os ydynt fel arfer yn teithio ar fws ysgol neu fe all disgyblion Blwyddyn 11 weithio'n annibynnol yn y Ganolfan 6ed Dosbarth os nad oes modd iddynt gyrraedd adref ar ôl eu harholiadau.

Fe fydd athrawon yn darparu profiadau dysgu cyfunol amrywiol wythnos nesaf. Dyma grynodedb:

Blwyddyn	Lleoliad	Manylion
7	Ysgol	Wythnos 1 arferol
8	Ysgol	Wythnos 1 arferol
9	Gartref	<b>Dysgu Cyfunol:</b> Gwersi 1, 3 a 5 yn wersi 'byw' yn ddyddiol (wythnos 1). Athrawon yn gosod gwaith ar Teams ar gyfer gwersi 2, 4 a 6. Gweler canllaw dysgu cyfunol Blwyddyn 9 am fwy o fanylion.
10	Gartref	<b>Dysgu Cyfunol:</b> Gwersi 'byw' dyddiol x 3 wedi eu dethol i sicrhau trawstoriad o wersi craidd ac opsiwn (wythnos 1). Athrawon yn gosod gwaith ar Teams ar gyfer y gwersi eraill. Gweler amserlen a chanllaw dysgu cyfunol Blwyddyn 10 am fwy o fanylion.
11	Gartref	<b>Dysgu o bell:</b> Gan fod arholiadau rhifedd TGAU gan 120 o ddisgyblion ar ddyddiau Mawrth ac Iau, ac arholiad Saesneg TGAU gan 20 o ddisgyblion ar ddyddiau Llun ac Iau, rhoddir blaenoriaeth i waith adolygu yn ystod yr wythnos. Ni fydd gwersi byw, ond bydd athrawon yn gosod tasgau neu waith darllen dros y bythefnos nesaf i sicrhau na fydd gormod o amser yn cael ei golli yn ystod y cyfnod clo. Bydd athrawon ar gael i 'sgwrsio' trwy Teams pan fydd gwersi ar eu hamserlen.
12	Gartref	<b>Dysgu Cyfunol.</b> Gwersi 'byw' i barhau, gyda disgwyl i ddisgyblion ymuno â'r gwersi trwy Teams.
13	Gartref	<b>Dysgu Cyfunol.</b> Gwersi 'byw' i barhau, gyda disgwyl i ddisgyblion ymuno â'r gwersi trwy Teams.

# Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,  
YTyllgoed,  
Caerdydd,  
CF5 3PZ

 029 20 405 499

 [post@ysgolplasmawr.cymru](mailto:post@ysgolplasmawr.cymru)

 @YsgolPlasmawr

Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,  
Fairwater,  
Cardiff,  
CF5 3PZ

 029 20 405 499

 [post@ysgolplasmawr.cymru](mailto:post@ysgolplasmawr.cymru)

 @YsgolPlasmawr

Headteacher: Mr John D Hayes

## Symptomau COVID-19:

**Mae'n hanfodol bwysig nad ydych yn anfon eich plentyn i'r ysgol os oes ganddynt unrhyw un o'r symptomau canlynol:**

- tymheredd uchel: mae hyn yn golygu eich bod yn teimlo'n boeth i gyffwrdd ar eich brest neu eich cefn (nid oes angen i chi fesur eich tymheredd)
- peswch newydd, parhaus: mae hyn yn golygu pesychu llawer am fwy nag awr, neu dri neu fwy o byliau pesychu mewn 24 awr (os oes gennych beswch fel arfer, gall fod yn waeth nag arfer)
- colled neu newid i'ch synnwyr arogli neu flasu: mae hyn yn golygu eich bod wedi sylwi na allwch arogli na blasu unrhyw beth, neu mae pethau'n arogli neu'n blasu'n wahanol i'r arfer.

Yn wir, os oes gennych unrhyw amheuaeth am gyflwr iechyd eich plentyn, yna ystyriwch yn ofalus cyn anfon eich plentyn i'r ysgol; byddai'n well rhoi diwrnod neu ddau i weld a yw'r symptomau'n datblygu ymhellach nag anfon y plentyn i'r ysgol gydag unrhyw fath o amheuaeth am ei iechyd. Os yw eich plentyn yn dangos symptomau COVID-19, trefnwch brawf COVID cyn gynted â phosib a hunanynyswch nes i chi dderbyn y canlyniad.

## Profion COVID-19:

Gofynnir yn garedig i chi gysylltu â'r ysgol yn syth os yw eich plentyn neu unrhyw aelod o'r teulu'n profi'n positif am COVID-19. Bydd angen i bob aelod o'r teulu hunanynysu am 14 diwrnod o bryd cychwynnodd y symptomau. Cysylltwch drwy ffonio'r swyddfa yn ystod oriau ysgol neu e-bostiwch y wybodaeth at [post@ysgolplasmawr.cymru](mailto:post@ysgolplasmawr.cymru) <<mailto:post@ysgolplasmawr.cymru>>. Bydd angen i ni weld copi o'r neges fyddwch chi wedi ei dderbyn yn cadarnhau'r canlyniad positif. Mae unrhyw un sy'n profi'n positif i COVID-19 yn rhydd i ddychwelyd i'r ysgol ar yr 11eg diwrnod ar ôl i'w symptomau gychwyn, ac mae'r rheiny sy'n hunanynysu am 14 diwrnod yn rhydd i ddychwelyd i'r ysgol ar y 15fed diwrnod ar ôl eu cyswllt olaf gyda'r achos positif.

## Teithio ar fysiau yn ôl ac ymlaen i'r ysgol:

Os yw eich plentyn yn teithio ar fws yn ôl ac ymlaen i'r ysgol, eglurwch wrthynt eto bwysigrwydd gwisgo mwgwd a'r angen i gadw at yr un grŵp o ffrindiau ar y bws. Buasai eistedd yn yr un sedd ar gyfer pob siwrne yn gymorth hefyd. Tybed, oes yna ffordd arall, ddiogel y gall eich plentyn gyrraedd yr ysgol heb orfod teithio ar fws am y tro?

## Amser cinio:

Anogwch eich plentyn i gymdeithasu gyda'r un grŵp o ffrindiau dosbarth amser cinio. Buasai darparu pecyn bwyd dyddiol yn osgoi gorfod ciwio gyda disgyblion ar hap o'r un flwyddyn am gyfnod estynedig wrth aros i fynd i mewn i'r ffreutur.

## Gorchudd wyneb / Gwisgo mygydau:

Fel y gwyddoch, mae'n orfodol i bawb wisgo gorchudd wyneb mewn manau cyhoeddus o fewn yr ysgol. Hoffwn annog disgyblion i wisgo gorchudd wyneb yn yr ystafelloedd dosbarth yn ogystal, er ni fedraf orfodi hyn.

Cadwch yn ddiogel yn ystod y cyfnod anodd hwn.

John Hayes  
(Pennaeth)

# Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr



Ffordd Pentrebaen,  
Y Tyllgoed,  
Caerdydd,  
CF5 3PZ

 029 20 405 499

 post@ysgolplasmawr.cymru

 @YsgolPlasmawr

Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,  
Fairwater,  
Cardiff,  
CF5 3PZ

 029 20 405 499

 post@ysgolplasmawr.cymru

 @YsgolPlasmawr

Headteacher: Mr John D Hayes

November 1st, 2020

Dear parent / guardian,

I sincerely hope that every member of your household has managed to remain healthy over the past week and that you have managed to find some time to rest. The COVID-19 situation remains of great concern to us all with the virus according to the latest statistics continuing to spread in Cardiff and across the nation. As you know, we are now entering the second week of the short lockdown period in Wales with strict social limits in place to reduce the transmission of the virus within our communities. We remain to see what will happen at the end of this lock-down period, decisions will undoubtedly be made in light of the relative success of these restrictions in limiting the spread of the virus.

**The only pupils allowed to return to school in the week commencing November 2nd are pupils in Years 7 and 8 and those pupils in Year 11 who are sitting GCSE exams that week.** The link will take you directly to a presentation about the arrangements for these GCSE exams: <https://moodle.ysgolplasmawr.cymru/course/view.php?id=454> Pupils in Year 11 who normally travel to school on school transport will have to make their own arrangements to travel home after their exams or they will be allowed to work independently in the 6th Form Centre if unable to travel home after their exams.

Teachers will provide a variety of blended learning opportunities next week:

Year	Location	Details
7	School	Week 1 as normal
8	School	Week 1 as normal
9	Home	<b>Blended learning:</b> Lessons 1, 3 and 5 daily will be 'live' lessons (week 1). Teachers will set work on Teams for lessons 2, 4 and 6. Please find further information in the attachment.
10	Home	<b>Blended learning:</b> There will be 3 'live' lessons daily chosen to provide a cross-section of experiences between core and option subjects (week 1). Teachers will provide learning material on Teams for the other lessons. Please find further information and timetable in the attachment.
11	Home	<b>Distance learning:</b> The priority will be revision for the numeracy GCSE exams for the 120 pupils entered for the exam, to be held on the Tuesday and Thursday, and English language for the 20 pupils entered for that exam, to be held on the Monday and Thursday. There will be no 'live' lessons scheduled, but teachers will provide learning activities and reading material for the next fortnight. Teachers will be available through Teams 'chat' during scheduled lessons.
12	Home	<b>Blended learning:</b> 'Live' lessons will continue as per the normal timetable. Students will gain access to lessons through Teams.
13	Home	<b>Blended learning:</b> 'Live' lessons will continue as per the normal timetable. Students will gain access to lessons through Teams.

# Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,  
YTyllgoed,  
Caerdydd,  
CF5 3PZ

 029 20 405 499

 [post@ysgolplasmawr.cymru](mailto:post@ysgolplasmawr.cymru)

 @YsgolPlasmawr

Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,  
Fairwater,  
Cardiff,  
CF5 3PZ

 029 20 405 499

 [post@ysgolplasmawr.cymru](mailto:post@ysgolplasmawr.cymru)

 @YsgolPlasmawr

Headteacher: Mr John D Hayes

## COVID-19 symptoms:

**Please do not send your child to school if they display any of the following symptoms:**

- a high temperature: this means you feel hot to touch on your chest or back (you do not need to measure your temperature)
- a new, continuous cough: this means coughing a lot for more than an hour, or 3 or more coughing episodes in 24 hours (if you usually have a cough, it may be worse than usual)
- a loss or change to your sense of smell or taste: this means you have noticed you cannot smell or taste anything, or things smell or taste different to normal

I would urge you not to send your child to school if there is any doubt about the health of your child. It may be prudent to allow one or two days to see if the symptoms develop further rather than risk sending your child to school with potential COVID symptoms. If your child displays any symptoms, you must arrange a test as soon as possible and self-isolate until the test result is confirmed.

## COVID-19 tests:

I would kindly ask you to inform the school as soon as possible if your child or any member of your household receives a positive COVID-19 test result. If this occurs, all members of the household are required to self-isolate for 14 days from the onset of the symptoms. Please contact the school office during school hours, or otherwise e-mail: [post@ysgolplasmawr.cymru](mailto:post@ysgolplasmawr.cymru). We will need to receive a copy of the confirmation text or e-mail regarding the positive test. Individuals who test positive to COVID-19 are allowed to return to school on the 11th day from the onset of their symptoms and those who have been self-isolating for 14 days are allowed to return to school on the 15th day from their last known contact with the positive case.

## Travelling to and from school by bus:

Could you please reiterate the importance of wearing face coverings on school transport if your child travels by bus or coach to school? Keeping to the same friendship group when travelling on a bus and keeping to the same seats for every journey would also reduce the potential risk of transmission. I wonder, have you considered in the short term if there is another, safe means of travelling to school without having to catch the bus?

## Face coverings / masks:

As you know, it is mandatory to wear a face covering in the communal areas in school. I would like to encourage as many pupils to take this practice into the classroom environment in a further attempt to reduce the possibility of viral transmission.

## Lunch time:

Please could you encourage your child to stay within their class friendship group at lunchtime and it would be worth considering providing a packed lunch, as this would avoid having to spend a lengthy period of time queuing for the canteen mingling with pupils from other classes within the same year group.

Please keep safe during these difficult times.

John Hayes  
(Headteacher)